CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Grantiau Gweithdai Ymchwil Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Yr Alwad yn Agor: 16 Ionawr 2023

Yr Alwad yn Cau: 24 Chwefror 4.00 pm

Uchafswm grant: £1,000

Cyflwyno ar-lein drwy: Ffurflen Gais – Grantiau Gweithdai

Mae'r cynllun grant wedi'i gynllunio i annog ymchwilio'n gydweithredol i gais ymchwil sydd ar gam cynnar yn ei ddatblygiad.

Gan adeiladu ar lwyddiant cynllun peilot y llynedd, rydym wedi datblygu tair ffrwd ar gyfer 2022:

- **Astudiaethau Cymru**
- **Ymchwilydd Gyrfa Cynnar**
- **Y Celfyddydau, Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol**

Beth yw gweithdy ymchwil?

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn ystyried Gweithdy fel ysgolheigion yn dod at ei gilydd yn gynnar yn y broses o gynllunio, ac yn datblygu menter ymchwil gydweithredol. Sylwer mai bwriad y grantiau hyn yw annog a chefnogi amrywiaeth o gyfarfodydd a digwyddiadau i hyrwyddo'r gwaith o archwilio'r pwnc, ac nad yw un digwyddiad sy'n rhannu ymchwil wedi'i gwblhau neu ymchwil uwch yn gymwys o dan y cynllun hwn. Nid yw'r grant yn ymdrin â gweithgareddau a fyddai wedi digwydd beth bynnag (er enghraifft, wedi'u cysylltu â chynhadledd sy'n bodoli eisoes). I gael gwybodaeth am grantiau cymorth mewn perthynas â digwyddiadau'r Gymdeithas, cliciwch yma.

Rhagwelir y bydd pob prosiect Gweithdy yn arwain at ddatblygu rhwydwaith, neu at amlinellu syniad ar gyfer gwneud cais am brosiect grant yn y maes fydd yn cael ei archwilio, er mwyn darparu canlyniadau pendant a fydd o werth i'r gymuned academaidd a'r cyhoedd ehangach.

Dylai ceisiadau llwyddiannus fod â dyddiad cychwyn rhwng 3 Ebrill 2023 – 31 Gorffennaf 2023

Pwy sy'n cael ymgeisio

Mae'n rhaid i geisiadau gynnwys **dau sefydliad neu fwy**.

Mae'n rhaid i Ymgeiswyr Arweiniol fod yn gyflogwr sydd wedi ei leoli yng Ngymru a bod yn un o'r canlynol:

- yn academydd amser llawn neu ran-amser sydd yn cael ei gyflogi gan Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru;
- yn ymarferydd amser llawn neu ran-amser, neu'n aelod o staff sy'n weithgar ym maes ymchwil yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector, gydag ymrwymiad amlwg i addysgu ac ymchwil o fewn y sefydliad hwnnw.

Gall Ymgeiswyr Arweiniol fod ar gontract dros dro neu barhaol yn eu sefydliad.

Noder mai dim ond un Grant Gweithdy Cymdeithas Ddysgedig Cymru y gellir ei gael, neu wneud cais amdano, ar unrhyw un adeg.

Gall tîm y prosiect gynnwys y canlynol hefyd:

- ymchwilwyr academaidd eraill o unrhyw ddisgyblaeth,
- ymchwilwyr y tu allan i'r byd academaidd,
- aelodau o'r cyhoedd neu grwpiau sy'n wynebu'r cyhoedd.

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu gan banel sydd yn cael ei benodi gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, a fydd yn dod i gonsensws wrth benderfynu pa geisiadau sy'n llwyddiannus. Efallai y byddwn yn gofyn i ymgeiswyr am ragor o wybodaeth, cyn cadarnhau bod grant wedi cael ei ddyfarnu iddynt.

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu yn unol â'r meini prawf sydd yn cael eu rhestru yn yr adran 'Beth rydym yn chwilio amdano'.

Beth rydym yn chwilio amdano

Prif egwyddorion y cynllun ariannu ydy:

- darparu ymchwil gydweithredol a rhyngddisgyblaethol
- gweithio gyda phartneriaid allanol i gyd-gynhyrchu canlyniadau ymchwil ac i gyfnewid gwybodaeth
- sicrhau bod egwyddorion ac arferion gorau mewn perthynas â gweithio rhyngddisgyblaethol yn cael eu mabwysiadu o'r cychwyn cyntaf, a chaniatáu ar gyfer datblygu partneriaethau gwirioneddol gydweithredol, a fydd yn darparu atebion i heriau cymhleth
- ystyried a chyfrannu at saith nod lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- cynllunio ac adeiladu partneriaeth gydweithredol er mwyn paratoi i wneud cais o bosibl am gyfleoedd ariannu yn y dyfodol

Yn ogystal â'r egwyddorion hyn, mae gan bob ffrwd feini prawf penodol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy yn y cais:

- **Astudiaethau Cymru**
    - perthnasedd yng nghyd-destun Cymru
- **Ymchwilydd Gyrfa Cynnar**
    - Amlinellu sut y caiff cydberthnasau eu datblygu ar draws cymunedau ymchwilwyr gyrfa cynnar, gan arwain o bosibl at gynigion arloesol yn y dyfodol sy'n dod â'r disgyblaethau at ei gilydd
    - Diffinnir "ymchwilydd gyrfa gynnar" fel ymchwilydd o fewn 10 mlynedd i ddyfarnu eu PhD
- **Y Celfyddydau, Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol**
    - Amlinellu sut y caiff cydberthnasau eu datblygu ar draws cymunedau ymchwilwyr gyrfa cynnar, gan arwain o bosibl at gynigion arloesol yn y dyfodol sy'n dod â'r disgyblaethau at ei gilydd

Dim ond i un ffrwd ariannu y gallwch wneud cais.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Yn ogystal â'r gofynion cyfreithiol allweddol, dylai ymgeiswyr ystyried sut y byddant yn mynd i'r afael ag anghenion penodol sy'n gysylltiedig â EDI, yn unol ag ymrwymiad y Gymdeithas i EDI.

Effaith ac adrodd

Byddwn yn gofyn i'r rheini sy'n cael eu derbyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd (trwy gyfrwng ffurflen fer) erbyn 1 Awst 2023, ac adroddiad terfynol sy'n amlinellu gweithgareddau, canlyniadau ac effaith y prosiect erbyn 31 Hydref 2023.

Yr arian sydd ar gael

Gallwch wneud cais am hyd at £1,000 i gefnogi eich prosiect.

Gall ceisiadau gynnwys costau uniongyrchol wedi'u cyfiawnhau'n llawn a godwyd wrth gyflawni'r prosiect.

Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- adnoddau staff (gan gynnwys gweinyddu a chydlynu, cyfraniadau at gyflogau (lle bydd unigolyn a enwir yn gwneud gwaith na fyddai'n cael ei ystyried yn rhan o'i ddyletswyddau arferol), is-gontractio gwasanaethau, galluogi partneriaid cyhoeddus/cymunedol i gymryd rhan)
- adnoddau nad ydynt yn ymwneud â staff (gan gynnwys costau deunyddiau, teithio a chynhaliaeth, cyfarfodydd a digwyddiadau, treuliau, deunyddiau a chyfarpar, costau gwerthuso)
- ariannu treuliau, honorariwm ar gyfer amser, gofal plant a chostau eraill, i ganiatáu i'r rheiny y tu allan i'r byd academaidd gymryd rhan, fel cymunedau cyhoeddus, a hyfforddiant i feithrin gallu'r grwpiau hyn i chwarae rhan hyderus a gweithredol yng ngweithgareddau'r gweithdy a'r ymchwil.

Mae'r alwad hon yn cael ei hariannu y tu allan i'r rheolau Costau Economaidd Llawn.

Gall sefydliad yr ymgeisydd arweiniol a'r sefydliadau partner ychwanegu at grantiau.

Costau sydd ddim yn cael eu talu

Mae'n rhaid i'r gyllideb a'r costau fod yn seiliedig ar amcangyfrifon dilys. **Ni chaiff cyllid ei ddarparu ar gyfer y canlynol:**

- costau ystadau ac anuniongyrchol
- offer swyddfa a gliniaduron neu unrhyw offer sydd ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â rhedeg y gweithdy
- ffioedd neu honoraria i bobl sydd eisoes mewn cyflogaeth â thâl i gyflawni gweithgareddau lle byddai gweithgareddau o'r fath yn cael eu gwneud yn rhesymol fel rhan o'u dyletswyddau arferol
- cyllid ôl-weithredol, gan gynnwys y prosiectau hynny â dyddiad cychwyn ar ôl dyddiad cau'r alwad am gyllid, ond cyn i'r penderfyniadau ariannu gael eu cyhoeddi
- costau seilwaith/adeiladu
- presenoldeb mewn cynadleddau wedi'u cynllunio
- treuliau a gafwyd wrth gyflwyno'r cais
- cyrsiau academaidd fel graddau Meistr neu ddoethurol, a ffioedd dysgu eraill

Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i beidio ag ariannu hyd at y cyfyngiad a ddyrennir i'r alwad, ac i wneud newidiadau i gyfyngiadau cyllidebol y grantiau llwyddiannus.

Darparu'r grantiau

Bydd y broses i ddyfarnu'r grantiau hyn fel a ganlyn:

- Bydd archeb brynu yn cael ei chodi, a bydd rhif archeb brynu yn cael ei rannu.
- Bydd y grant yn cael ei dalu drwy anfoneb (mae'n rhaid iddo gynnwys rhif yr archeb brynu, cyfeiriad y safle, cyfeiriad Cymdeithas Ddysgedig Cymru a rhif anfoneb unigryw)

Sut i wneud cais

Rhaid cyflwyno cynigion drwy'r ffurflen ar-lein erbyn 4:00pm 4 Tachwedd 2022. Ni chaiff unrhyw ddogfennau eraill eu hystyried. Cysylltwch â Cathy Stroemer os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Dyddiadau Pwysig:

Yr Alwad yn Agor: 16 Ionawr 2023

Yr Alwad yn Cau: 24 Chwefror2023, 4.00 pm

Adolygu a phaneli: 27 Chwefror – 17 Mawrth 2023

Canlyniad y dewis: erbyn 31 Mawrth 2023

Dyddiadau cychwyn ar gyfer prosiectau: 3 Ebrill - 31 Gorffennaf

Y dyddiad olaf i gyflwyno cais am gyllid (ymgeiswyr llwyddiannus): 31 Awst 2023

Adroddiad terfynol yn ddyledus: 31 Hydref 2023

Diogelu data

Bydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu at ddibenion prosesu'ch cais, gan wneud unrhyw wobrau, monitro ac adolygu unrhyw grantiau. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu gwybodaeth agregau dienw â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU 2021 (GDPR y Deyrnas Gyfunol). Rydym yn prosesu ac yn trin gwybodaeth bersonol yn ôl y rheoliadau hyn. Dim ond er mwyn prosesu eich cais y bydd yr wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio. Bydd yr wybodaeth yn cael ei gweld gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru a'r rhai sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio/ei rhannu y tu hwnt i'r partneriaid a restrir uchod at unrhyw ddiben arall heb eich caniatâd penodol.

Cefnogir y cynllun grantiau hwn gan CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw